

Wyt ti'n un o'n teulu ni?

Fuost ti rioed yn fwnci bach

Yn bwyta syltanas yn syth o'r sach?

Yn dringo'r cotiau sydd ar gefn y drws?

A thynnu wynebaw, yn lle edrych yn dlws?



Fuost ti rioed yn fochyn pinc

Yn gwichian wrth gael dy folchi mewn sinc?

Yn rowlio mewn mwd yn dy ddiwad glân?

A gorwedd yn noeth o flaen y tân?



Fuost ti rioed yn bilipala

Yn dawasio'n yr haul ar y goeden 'fala?

Yn gwisgo blodau a throi'r byd yn ardd?

A sibrawd wrth flodyn ei fod o yn fardd?



Fuost ti rioed yn grocodeil

Yn taeru bod broga'n gwneud cinio gwerth chweil?

Yn gorwedd mewn bath yn fybyls at dy ên?

A dangos dy ddannedd i bobol glên?



Os na fuost ti'n grocodeil, yn bilipala chwaith,

Na mochyn, na mwnci ar dy daith,

Yna, mae'n ddrwg gen i,

Dwyt ti'n perthyn dim i'n teulu ni.

Myrddin ap Dafydd

Allan o: *Tafodau Symudol*. Gwasg Carreg Gwalch.

Cam wrth Gam, Mared Llwyd

Detholiad

Fore dydd Calan aeth yr efeilliaid, Cain a Llew, am dro yn yr eira ar eu beiciau newydd ond cafodd Llew ddamwain a chafodd niwed difrifol i'w ymennydd. Cadwodd Cain ddyddiadur i'w brawd yn yr ysbyty. Ynndo mae hi'n cyfarch ei brawd, yn adrodd ei hanes hi ei hun a'i ffrindiau ac yn cofnodi ei ddatblygiad.

O ie, cyn i mi orffen ysgrifennu am heddiw, mae un peth arall dwi eisiau sôn wrthot ti amdano ... Wnei di byth ddyfalu beth wnes i ddoe. Roedd yr ysgol yn cynnal gwasanaeth y Pasg. Fel arfer fyddwn i byth bythoedd yn gwneud unrhyw beth mwy na sefyll yng nghefn y côr neu'r parti canu, allan o olwg pawb. Ond y tro hwn, pan ofynnodd Miss Llywelyn i fi fyddwn i'n fodlon gwneud darlleniad byr, gan fod pawb arall o Flwyddyn 6 yn gwneud, fe gytunes i! Do, wir i ti! Roeddwn i'n teimlo'n hollol sâl ac yn crynu fel jeli wrth feddwl am y peth, ond fe wyddwn fod yn rhaid i fi fod yn ddewr. Wedi'r cyfan, pan dwi'n meddwl am bopeth rwyf ti wedi'i wynebu dros y tri mis diwethaf, dwi'n sylweddoli beth yw dewrder go iawn.

Roedd dad yno'n fy ngwylio, reit yn y rhes flaen, a rhoddodd e gwtsh mawr i fi ar ôl i fi orffen. 'Dwi mor browd ohonot ti, Cain, meddai fe'n dawel yn fy nghlust i.

Hoffwn pe baet ti a Mam wedi gallu bod yno hefyd, Llew.

O ie, sôn am Mam o'r diwedd ar ôl tipyn o berswâd mae hi wedi cytuno i fynd adre am nai dyddiau ddechrau'r wythnos nesaf. Er y bydd hi'n rhyfedd iddi dy adael di fe wneith y newid fyd o les iddi. Felly, sori, Llew, ond byddi di'n sdyc gyda dim ond Dad a fi o ddydd Llun tan ddydd Iau!

Mae Dad wrthi'n mynd trwy nai o'r lluniau yn yr albwm gyda ti wrth i fi sgrifennu hwn. Mae e newydd ddod ar draws llun ohonon ni'n sgïo ar lethr artiffisial Llangrannog ychydig dros flwyddyn yn ôl.

'Edrych Llew, nid eira go iawn yw e - fe aethon ni i Awstria ychydig wythnose wedyn. Ro't ti'n wych ar y sgîs, ond Cain, druan, wel ...!'

Mae dad yn dweud y gwir! Mae'n wyrth na wnes i ddim torri 'nghoes neu 'mraich yn Awstria! Ond roeddet ti fel pe baet wedi cael dy eni â phâr o sgîs yn sownd wrth dy draed di!

Mae Dad yn chwerthin wrth gofio hefyd, ond dwyt ti ddim. Rwyf ti'n sylu'n hir ar y llun, yn astudio pob modfedd ohono, heb ddweud gair.

Mae Dad yn mynd yn ei flaen, 'Fe gawson ni un o staff y llethr sgïo i dynnu'r llun ... edrych ar dy gôt sgïo goch, lachar newydd di!

Mae Erin, y nyrs, wedi dod i'r ystafell a chyhoeddi ei bod hi'n amser cinio. Mae Dad yn rhoi'r llun yn ôl yn yr albwm. Dwi'n meddwl ei fod e'n sylweddoli does dim pwynt dweud mwy, ddim heddiw.

Tra dwi'n dy helpu di i fwyta dy ginio, Llew, dyma ambell ffaith fach arall i dy helpu di ddod i adnabod dy hun - y Llew newydd - yn well.

- Erbyn hyn rwyt ti'n llwyddo i fwydo dy hun yn fwyfwy aml, er bod dy ddwylo di'n grynedig iawn a dy gydsymud di'n araf o hyd.
- Rwyt ti'n dechrau rhoi geiriau syml Cymraeg a Saesneg at ei gilydd wrth siarad, ond dydyn ni ddim yn siwr faint rwyt ti'n ei ddeall pan fydd rhywun yn siarad â ti.
- O'r eirfa weddol brin sydd gyda ti ar hyn o bryd, rwyt ti'n ei chael hi'n anodd cofio geiriau. Rwyt ti hyd yn oed wedi dechrau bathu dy eiriau dy hun pan na fyddi di'n siwr o'r gair cywir! 'Trolo' yw 'cyllell', 'brot' yw 'llyfr' a 'rhagli' yw 'gorwedd'. Mae'n fy atgoffa i o Mam a Dad yn sôn am yr iaith arbennig oedd gen ti a fi pan oedden ni'n fach a dim ond ni'n dau yn ei deall!
- Dwyt ti ddim wedi dweud gair am y ddamwain ers i ti ddeffro a does neb yn siwr ar hyn o bryd pryd fydd yr amser iawn i ddechrau dy holi.

Hwyl am y tro, te Llew xx

Allan o: *Cam wrth Gam* gan Mared Llwyd. Y Lolfa

Tudalen Problemau

PROBLEM LOIS

Rydyn ni newydd gael gwybod bod gan fy chwaer fach, sy'n 9 oed, gancr. Er bod Lowri a fi'n cweryla o hyd rydyn ni'n ffrindiau go iawn. Rydw i'n teimlo fel pe bai'r llawr wedi cael ei dynnu o dan fy nhraed ac wn i ddim ble i droi. Does arna i ddim eisiau rhoi pwysau ychwanegol ar Dad a Mam oherwydd mae ganddyn nhw ddigon i boeni amdano. Rydw i'n gwybod y dylwn i fod yn gefn iddyn nhw ac i Lowri ond rydw i'n teimlo'n rhy swil i drafod y sefyllfa gyda neb. Allwch chi fy helpu?

PROBLEM BEN

Mae gan Mam broblem. Mae hi'n yfed yn drwm ac yn fy nharo. Gadawodd Dad ni ddwy flynedd yn ôl a dewisais i aros gyda Mam. Efallai y dylwn symud i Fanceinion at Dad ond does arna i ddim eisiau symud i Loegr ac rydw i'n teimlo y dylwn aros yma i ofalu am Mam. Rydw i'n poeni yn ofnadwy amdani oherwydd dydy hi ddim yn paratoi bwyd na gofalu amdani ei hun, dim ond meddwi. Sut allaf i gael help?

PROBLEM TERENCE

Pan wahanodd Dad a Mam roeddwn yn ddigon hapus yn byw gyda dad ac yn mynd at Mam bob penwythnos. Ond mae pethau wedi newid. Fe wnaeth Dad gyfarfod â Lisa a chwe mis yn ôl pan oeddwn yn 14 oed priododd hi a daeth hi a'i merch, Jennie, sy'n 11 oed i fyw aton ni. Mae'r ddwy wedi cymryd y tŷ drosodd. Mae Lisa yn ffeind wrtha i ond mae'n rhoi llawer mwy o sylw i Jennie ac yn ei difetha. Rydw i'n hollol anhapus yn fy nghartref fy hun - efallai am nad ydw i wedi arfer cael merch o gwmpas y tŷ. Ond, rydw i'n teimlo allan ohoni. Beth wna i?

PROBLEM TRACY

Ar ôl i Dad a Mam wahanu mae mam wedi mynd i actio'n wahanol. Mae hi'n gwisgo'n fwy ffasiynol ac wedi newid steil ei gwallt. Mae hi hefyd yn mynd allan gyda'r nos ac yn amlwg yn chwilio am gariad. Roedd yn well gen i hi fel roedd hi ers talwm - yn fam normal. Mae hi fel merch ifanc yn ei harddegau rwan. Am faint mae hyn yn mynd i barhau? A beth wna i pan ddaw hi â dyn i'r tŷ yma?

PROBLEM SIWAN

Mae Sadie (nid dyna ei henw iawn) a fi wedi bod yn ffrindiau da ers y diwrnod cyntaf aethon ni i'r ysgol feithrin. Ond mae hi wedi newid. Bob amser cinio mae hi'n dweud fy mod i'n rhy dew - fy mod i fel hippo. Mae hi'n dweud bod yn rhaid i fi roi'r gorau i fwyta neu fydd hi ddim yn ffrindiau gyda fi. Does neb arall yn dweud mod i'n dew ond er mwyn ei phlesio dydw i ddim yn bwyta cinio ysgol. Pan dw i'n cyrraedd adref mae mam yn methu deall pam rydw i bron â llwgu. Gyda pwy alla i siarad?

PROBLEM MEIRION

Dydw i ddim yn hoffi cyfaddef hyn ond mae gen i grysh ar fy athrawes Cemeg. Rydw i'n 14 oed ac mae hi ar ei blwyddyn gyntaf o ddysgu. Mae arna i ofn i un o fy ffrindiau sylweddoli hyn. Pan fydda i'n ei gweld hi mae nghalon i'n neidio ac mae fy nwylo'n chwysu. Rydw i'n ceisio ymddwyn yn normal ond mae'n anodd. Fedra i ddim ei chael allan o'm meddwl ddydd a nos. Ddylwn i ddweud wrthi hi?

Jac, Guto Dafydd

Ocê

Diweddglor nofel 'Jac' gan Guto Dafydd yw'r darn darllen hwn. Jac yw'r prif gymeriad ac wrth fynd ar ras traws gwlad gyda'r ysgol mae'n darganfod corff. Yn nes ymlaen caiff dyn arall ei lofruddio ac mae Jac yn chwarae ditectif. Roedd ei fam yn gweithio yn y Clwb Golf ond caiff ei chyhuddo o'r llofruddiaethau.

Roedd y daith o'r carchar yn ôl i'r dre yn hir a diflas. Edrychodd Jac ar lawr y car wrth basio'r ffordd lle torrodd Mam ar draws pan oedd yr hofrennydd yn eu dilyn, a'r traeth lle daeth popeth i ben, lle chwalodd pob dim. Ond roedd yr atgofion yn pylu bellach, yn mynd yn feddal fel breuddwydion.

Doedd Mam ddim fel Mam rŵan: yr ochr draw i'r bwrdd yn stafell ymweld y carchar, roedd hi wedi colli'r prysurdeb oedd yn ei gwneud yn hi ei hun. Eisteddai'r tri ohonyn nhw yr ochr arall i'r bwrdd yn llawn straeon am eu bywydau bob dydd; ar yr ochr arall roedd Mam yn ei dillad diflas, ac ôl dyddiau undonog, hir y carchar yn amlwg arni.

Erbyn hyn roedd pob dicter wedi diflannu. Doedd Jac yn dal ddim yn deall sut digwyddodd popeth - sut y tyfodd blacmel syml y tu hwnt i reolaeth, nes nad oedd Mam yn meddwl bod ganddi ddewis ond llofruddio dau ddyn. Roedd y cwbl yn perthyn i ddrysfa gyfogyd o ddigwyddiadau yn y gorffennol.

Ceisai Mam wenu a chodi brwdfrydedd i holi eu hanes. Ond roedd y sbarc yn ei llygaid wedi mynd. Doedd hi ddim yn perthyn i'r byd go iawn, bellach.

Trodd Dad y car oddi ar y draffordd; roedd hi'n amser cinio. Aeth y tri i mewn i McDonalds a'r lliwiau llachar yn eu deffro, yn dod â nhw'n ôl at fywyd go iawn. Dechreuodd Jac a Lowri binsio'i gilydd yn y ciw; pan ofynnodd Lowri i Dad stopio Jac, dechreuodd Dad binsio'r ddau ohonyn nhw.

Aethant i fwyta'u byrgyrs wrth y byrddau y tu allan gan edrych dros y draffordd am y môr.

Ddywedodd neb ddim byd am Mam ond roedd hi'n amlwg fod meddyliau'r tri ohonyn nhw'n dal yn stafell ymweld y carchar. Hynny ydi, nes i Dad faglu dros gareiau'i sgidiau ar y ffordd at y bin; syrthiodd yn heglog a doniol nes bod sôs coch a gweddillion Big Mac yn stremp ar hyd ei wyneb a'i grys. Chwarddodd Jac; chwarddodd Lowri; ac ar ôl rhywfaint o wgu, chwarddodd Dad hefyd.

Aeth Lowri i geisio sychu peth o'r saws a'r picls oddi arno. Gwenodd Jac wrth edrych arny'n nhw. Roedden nhw'n ocê.

Allan o: [Jac gan Guto Dafydd. \(Cyfres Pen Dafad\) Y Lolfa](#)

1 o bob 10 plentyn yn cael cam gan ei rieni

Mae bron i 1 o bob 10 plentyn yn cael cam gan ei rieni, meddai'r NSPCC ond yn aml iawn dydy'r achosion ddim yn dod i'r amlwg fel mathau eraill o niweidio plant.

Mae'n gallu digwydd cyn i'r plentyn gael ei eni fel pan mae'r fam yn cymryd cyffuriau. Wedi i'r plentyn gael ei eni mae'r rhiant neu'r gofalwr yn gallu gwneud cam ag ef trwy beidio â rhoi digon o fwyd, dillad neu gartref clyd iddo, beidio ei arbed rhag niwed corfforol neu emosiynol, beidio â rhoi digon o ofal iddo neu beidio â gwneud yn siwr ei fod yn cael sylw meddygol pan fo angen hynny arno.



Mae'r NSPCC yn gwneud llawer i geisio rhwystro plant rhag cael cam fel

- Darganfod achosion o blant yn cael cam
- Cefnogi rhieni sy'n cael trafferth i fagu eu plant
- Rhoi cymorth ymarferol i rieni plant o dan 5 oed
- Cefnogi pobl broffesiynol i wneud penderfyniadau am blant sy'n cael cam

Mudiad arall gwerthfawr iawn yn y maes hwn ydy Childline. Dyma hanes Leanne (nid dyna ei henw iawn) a gafodd help gan Childline.

Stori Leanne

Pan oeddwn i yn yr ysgol gynradd aeth pethau mor ddrwg adref nes i mi ddianc a rhoi fy hun mewn perygl. Byddem ni yn symud tŷ o hyd ac roedd pob un mewn cyflwr gwael ac yn fudr.

Roedd fy nillad a ngwallt yn fudr. Byddai'r plant yn yr ysgol yn dweud fy mod yn drewi ac roeddwn yn cael fy mwlio trwy'r amser.

Roedd yn rhaid i fi goginio fy mwyd fy hun a glanhau'r tŷ. Roeddwn yn meddwl bod fy nhŷ yn normal nes i mi weld tai plant eraill. Doedd fy ffrindiau ddim yn fodlon dod i'm tŷ i.

Dydwn i ddim yn meddwl bod mam yn gwybod sut i fod yn fam. Roedd hi wedi cael magwraeth wael ei hun. Roedd ei hwyliau yn newid o hyd ac roedd yn yfed llawer a byddai hi a'i phartner yn ymladd.

Pan oeddwn i'n fach iawn byddai'n dweud ei bod yn fy ngharu ond wrth i fi dyfu fe stopiodd ddweud hynny ac roeddwn i'n meddwl doedd hi ddim yn fy ngharu i ddim mwy.

Roeddwn i'n cael graddau da yn yr ysgol, ond rhoddais y ffidil yn y to mewn ychydig. Doedd dim pwrpas ymdrechu. Dechreuodd yr athrawon ddweud nad oeddwn yn gweithio'n ddigon caled. Fe ddylen nhw fod wedi sylweddoli bod rhywbeth o'i le ond ofynnodd neb ddim byd i mi. Collais fy hunan hyder. Roeddwn yn unig ac yn teimlo'n dda i ddim.

Doeddwn i ddim yn cysgu a doedd gen i neb i droi ato. Rhedais i ffwrdd. Roeddwn i'n eithaf aeddfed, felly, cyn gadael cartref es i swyddfa'r gwasanaeth cymdeithasol a gofyn am gael siarad gyda'r swyddog oedd ar ddyletswydd.

Fe roddon nhw arian i fi a dweud wrthyf am fynd i dŷ ffrind am y noson. Wnaethon nhw ddim gofyn i fi gysylltu'n ôl i ddweud oeddwn i'n saff.

Es i ddim i dŷ ffrind oherwydd byddai mam wedi dod o hyd i fi. A dyna lle'r oeddwn i yn 11 oed ac yn crwydro'r dref ar fy mhen fy hun yn y nos.

Wrth lwc es i giosg ffôn, gweld rhif Childline a'u ffonio. Fe ffeindion nhw le i mi aros am ychydig ddyddiau ond roedd yn rhaid i fi fynd yn ôl at mam wedyn.

Yna cefais fy rhoi mewn gofal am chwe mis ond wnaeth hynny ddim gweithio. Nôl at mam eto. Chawson ni ddim help o unman.

Rhedais i ffwrdd. Doedd Childline ddim yn gallu dod o hyd i le i mi felly fe gysgais ar y stryd. Dywedais wrthyn nhw mod i'n aros gyda ffrind. Roeddwn i'n rhewi ac yn ofnus iawn.

Yn y diwedd rhoddodd Childline fi mewn cartref maeth lle'r arhosais yn hapus ac yn ddiogel am flynyddoedd.

Byddai pethau wedi bod yn llawer gwell pe baen ni wedi cael help yn gynt. Heb Childline dydw i ddim yn gwybod beth fyddai wedi digwydd i mi."

Ymson Geraint



Rydw i wedi cael llond bol. Fi sy'n cael y bai eto. Ar gam. Dim ond am mai fi ydy'r bachgen a mod i ddwy flynedd yn hŷn na Nia! Pam mae'n rhaid i mam ochri gyda hi bob tro rydyn ni'n ffraeo? Hi ddechreuodd trwy fy ngalw i'n 'lembo twp'. Hy! Doeddwn i ddim wedi clywed am y boi na sy'n canu ar Stwnsh a does gen i ddim diddordeb ynddo fe chwaith!

Y broblem ydy ein bod ni yn y tŷ llawer mwy yn y gaeaf a does gan y ddau ohonon ni ddim yn gyffredin. Mae hi wedi gwirioni ar raglenni teledu tra rydw i'n ffan o rygbi a pheldroed.

Y gwir ydy ei bod hi'n eiddigeddus ohono i. Mae gen i griw mawr o ffrindiau ac mae'r merched yn ciwio i fyny i fod gyda fi. Rhyw ferched bach diniwed ydy ei ffrindiau hi a does gan fechgyn ddim diddordeb ynddi. Er ei bod hi'n dair ar ddeg oed mae hi'n anaeddfed a dyna pam mae hi eisiau sylw o hyd ac yn pwdu pan dydy hi ddim yn cael ei ffordd ei hun.

Rydw i'n ceisio'i hanwybyddu, aros yn fy llofft a chloi'r drws. Ond pam ddylwn i? Yn yr haf fe fydda i'n mynd allan o'r tŷ pan fydd hi'n mynd ar fy nerfau a finnau'n synhwyro bod pethau'n mynd yn ddrwg.

Mae mam yn dweud y dylwn edrych arni fel 'ffrind' ond os gwna i hynny mi fydd hi'n codi cywilydd arna i o flaen fy ffrindiau ac yn fy nilyn yn yr ysgol. Pwy sydd eisiau chwaer fach yn llusgo tu ôl iddo fe amser chwarae?

Mae hi'n codi hen grachod o hyd ac yn sôn am bethau rydw i wedi hen anghofio amdanyn nhw. Pethau pitw, dibwys fel pwy wnaeth hwfro'r carped cyn i dad a mam ddod adre fisoedd yn ôl.

Ymson Nia



Bechgyn! Meddwl eu bod yn 'macho'. Geraint sy'n gwneud i ni fod yn hwyr yn yr ysgol bron bob dydd am ei fod yn treulio cymaint o amser o flaen y drych yn jelio'i wallt ac yn edmygu ei hun. Ac mae o'n flin trwy'r amser - ddim yn bwyta nac yn cysgu digon meddai mam. Mae mam hefyd yn dweud nad ydw i ddim yn deall teimladau Geraint. Pan orffennodd Julie gyda fe roedd hi'n dweud y dylwn fod yn 'amyneddgar' am ei fod yn mynd trwy 'gyfnod anodd'. Gwneud môr a mynydd o bethau ddywedwn i.

Efallai mod i'n mynd ymlaen ac ymlaen weithiau ac y dylwn i roi'r gorau i'w pryfocio a chau fy ngheg! Ond mae'n anodd! Merch ydw i! Rydw i hefyd yn ceisio cyfaddawdu (gair mawr mam - rhyw fath o gyfarfod yn y canol, rydw i'n meddwl) ond wnaiff Geraint ddim symud blewyn. Mae e'n bengaled fel mul.

Mi fydda i'n hoffi sôn wrtho fo am fy nghynlluniau ond dydy o'n cymryd dim sylw - dim diddordeb. Mi fydda i'n trio cymryd diddordeb yn ei bethau fe er nad ydw i'n deall dim am rygbi.

Mae Elin yn dweud ei bod hi a'i chwaer yn ffraeo trwy'r amser hefyd. Maen nhw'n 'trafod' eu problemau, meddai hi, ac mae pethau'n gwella.. Ond pan fydda i'n trio siarad gyda Geraint wnaiff e ddim ymateb o gwbl, dim ond gadael yr ystafell a chau'r drws nes bod y tŷ yn ysgwyd. Efallai bod ganddo broblemau cyfathrebu. A dydy dad o ddim help o gwbl. Yr unig beth fydd e'n ei ddweud wrth mam ydy, 'Eu busnes nhw ydy e. Gad lonydd iddyn nhw! Rhaid iddyn nhw ddatrys eu problemau eu hunain. Mae'n baratoad da ar gyfer bywyd'. Ac yna bydd yn ôl yn gwylio'r teledu neu â'i ben mewn papur newydd. Dynion! Rydw i'n rhoi'r ffidil yn y to!

-

Un o'r gang

Dw i isio tatŵ,
bod yn tyff 'fath â nhw,
rhannu smôc yn y sedd gefn
cyn i'r bws ysgol chwyrnu o'r iard,
llyncu mwg heb ddangos fod fy llygaid i'n dyfrio.

Dw i isio bod yn un o'r gang,
bod yn un o'r rhai cŵl
sy'n ofni neb, sy'n ateb nôl.

Dw i isio clustdlws crwn yn fy motwm bol.

Dw i isio
peidio
bod yma
fy hun
ar gyrion eu sibrydion:
-Pwy ydi hon?
- Gwddi-gwddi! meddai'r iwnniform newydd-
dim rhwyg, dim crych, dim olion mwd
a chwlwm fy nhei yn fy nhafod.

Dw i isio trochi 'nglanweithdra
yn nefa blŵ eu blerwch,
sgriffio'n sgidia' wrth ddringo i'r ochr arall -
lle mae'r chwerthin:
Dw i isio bod yn perthyn.
Sonia Edwards.

Allan o: *Un o'r Gang* gan Sonia Edwards, Bwrlwm. ACAC 2002

Dŵr Dwfn

Conn Iggulden (addasiad Elin Meek)

Teg, y prif gymeriad, sy'n adrodd y stori yn y nofel hon. Ar ddechrau'r nofel mae'n cofio amdano'i hun yn cael ei fwlio pan oedd yn blentyn a'i frawd mawr, Dewi, yn dial ar y bwli.

Meddyliais am fachgen roedd y ddau ohonon ni wedi ei adnabod. Hen fachgen cas, Llywelyn Bowen oedd ei enw, ond bod pawb, gan gynnwys ei fam, yn ei alw'n Llew. Dw i'n gallu gweld ei hwyneb hi yn yr angladd yn wyn fel sialc. R'on i wedi bod yn sefyll yn y glaw ar lan y bedd, yn gwyllo'r arch yn mynd i lawr i'r twll. Dw i'n cofio meddwl tybed a oedd hi'n gwybod bod ei mab wedi bod yn ein bwlian ni.

Hoffi bod yn greulon i rywun roedd Llew, yn fwy na rhoi poen. Ei hoff dric oedd gwasgu person ar y ddaear a chodi ei goesau'n dynn dros ei ben fel ei fod yn methu cael ei anadl. Pan wnaeth e hyn i fi, dw i'n cofio ei wyneb yn mynd yn goch yr un pryd â fy wyneb i, a'r gwaed yn curo yn fy nghlustiau. Er mai dim ond plentyn o'n i, ro'n i'n gwybod bod rhywbeth yn rhyfedd am y ffordd roedd e'n mynd mor boeth a llawn cyffro.

Dw i'n credu mai fy mrawd laddodd e. Dw i erioed wedi mentro gofyn ond roedden ni wedi edrych ar ein gilydd wrth i'r arch fynd i lawr i'r twll rhyngon ni. Cyn i mi allu edrych i ffwrdd, roedd e wedi rhoi winc i mi.

Roedd Llew Bowen wedi boddi mewn llyn yn ddigon pell o Aber. Roedd e fel byd arall. Roedd fy mrawd wedi herio fe i groesi'r llyn. Roedd hi'n ddiwrnod rhewllyd a'r dŵr yn ddigon oer i droi'r croen yn las. Roedd fy mrawd wedi llwyddo i gyrraedd yr ochr draw, lle'r oedd criw ohonon ni'n crynu wrth i ni aros. Daeth allan o'r llyn yn edrych fel dyn rwber. Wedyn cerddodd yn araf a thrwm cyn pwysu ar graig a chwydu hylif melyn dros ei draed noeth.

Dw i'n credu mai fi oedd y cyntaf i wybod. Ond edrychais gyda'r lleill, gan ddisgwyl gweld pen coch Llew'n codi i'r lan. Deifwyr ddaeth â'i gorff e'nôl yn y diwedd ar ôl chwilio am dair awr. Roedd yr heddlu wedi siarad â phawb, a 'mrawd wedi bod yn llefain. Roedd y deifwyr wedi ein rhegi ni. Nhw oedd y rhai oedd yn gorfod chwilio am blant wedi boddi ar ddiwrnodau oer. Roedd eu geiriau'n ein chwipio wrth i ni grynu mewn blancedi coch garw.

Ro'n i wedi bod yn gwranddo ar fy mrawd yn siarad â nhw ond ddywedodd e ddim o werth. Doedd e ddim wedi gweld dim yn digwydd, meddai. Dim ond ar ôl cyrraedd yr ochr draw roedd e wedi meddwl bod rhywbeth yn bod. Byddwn i wedi'i gredu fe ond roedd e wedi gweld Lew yn rhoi dolur i fi'r diwrnod cynt.

Roedd Llew wedi penderfynu rhoi cosb arbennig i mi am dorri rhyw reol oedd ganddo. Ro'n i wedi bod yn llefain pan ddaeth fy mrawd heibio a dyma Llew yn gadael i mi fynd. Doedd dim un ohonon ni'n siwr beth fyddai e'n ei wneud ond roedd rhywbeth caled am fy mrawd. Roedd e hyd yn oed yn codi ofn ar fechgyn fel Llew. Wrth iddo weld llygaid tywyll fy mrawd Dewi a darnau gwyn ei wyneb lle'r oedd y croen yn dynn dros yr esgyrn, gadawodd i fi fynd ar unwaith.

Roedd y ddau wedi edrych ar ei gilydd a mrawd wedi gwenu. Y diwrnod wedyn roedd Llew Bowen yn gorff oer a glas ar lan llyn Nant-y-moch. Fentrais i ddim gofyn y cwestiwn. Roedd e wedi pwysu'n drwm ar fy stumog. Ro'n i'n teimlo'n euog am 'mod i'n rhydd. Ro'n i'n gallu cerdded heibio i dŷ Llew heb fod arna i ofn y byddai'n fy ngweld ac yn dechrau fy nilyn. Hen fachgen cas oedd e, ond doedd e ddim yn yr un cae â 'mrawd. Dim ond ffŵl fyddai wedi ceisio nofio ar ddiwrnod oer ym mis Tachwedd. Dim ond bachgen fyddai arno ofn pysgodyn mwy na fe ei hunan hyd yn oed.

Allan o: *Dŵr Dwfn* gan Conn Iggulden. addas. Elin Meek. Stori sydyn. Gwasg Gomer

Cyfrifoldeb

Araith

Diolch am y gwahoddiad i siarad yn y gynhadledd hon yn Ysgol y Waun. Rydw i'n meddwl bod trefnu cynhadledd ble mae oedolion, pobl ifanc a phlant yn dod ynghyd i drafod eu cyfrifoldebau yn rhywbeth blaengar ac adeiladol iawn.

Ac, yn wir, yn ein cymdeithas ni heddiw mae plant yn cael eu hannog i fod yn 'bartneriaid mewn gwaith' gyda'u rhieni. A beth mae hyn yn ei olygu? Ie, parch at y naill a'r llall, rhannu barn, derbyn penderfyniadau, gosod a chadw at safonau a chaniatau hawliau.

Y peth cyntaf sy'n rhaid i ni oedolion ei gofio ydy bod gan blant hawliau. Mae'n rhaid trafod pa dasgau sydd angen eu gwneud. Unwaith y bydd y plentyn a'r oedolyn wedi penderfynu eu ddylen nhw gyd-drafod i ba safon y dylai'r gwaith gael ei wneud. Ond rhaid i chithau blant a phobl ifanc dderbyn na allwn ni oedolion ddim derbyn 'gwneud dim' fel dewis! Unwaith y byddwch chi blant wedi dewis rhaid cadw at hynny a derbyn y canlyniadau!

Syniad da ydy i ni rieni ofyn i'r plentyn, 'Faint o amser rwyt ti'n meddwl fydd ei angen arnat?' Mae'n rhoi perchnogaeth i'r plentyn ac fe fydd yn fwy parod i ymgynghoedd at y nod.

Mae amrywio'r tasgau yn arfer dda hefyd oherwydd rydych chi blant yn diflasu'n hawdd. Rydych chi'n hoffi symud ymlaen i wneud gwaith mwy heriol sy'n gwneud i chi deimlo eich bod yn tyfu i fyny. Gwir?

A beth fyddai eich ymateb chi, blant a phobl ifanc, pe baech yn cael gormod o dasgau? Mynd ar streic, siw o fod! Felly, gofalgwch rhag hynny, rieni! A chofiwch hefyd mai chi ydy'r 'model'. Os ydy ystafell wely'r rhieni fel tip oes gennych chi hawl i fynnu bod eich plentyn yn dwt a thaclus? Go brin! Ar y llaw arall, os ydych chi'n berffeithydd rhaid derbyn bod cartref yn lle llawn gweithgareddau. Nid showhouseydy e!

Beth, tybed, ydy'r cyngor pwysicaf i rieni? Peidio â gwneud dim dros blentyn os ydy e'n abl i'w wneud ei hun! Ie, dyna fyddwn i'n ei ddweud! Pam mae'n rhaid i'r fam slafio i smwddio crys sydd wedi cael ei gadw o dan bentwr o ddillad arall? Pam mae'n rhaid i'r tad drwsio pyncjar ar olwyn beic pan fo'r mab yn hollol abl i wneud hynny? Pam mae'n rhaid i oedolion hwfro? Wedi'r cyfan, mae'r holl deulu yn cario baw i mewn i'r tŷ!

Mewn llyfr wnes i ddarllen yn ddiweddar roedd yr arbenigwyr yn dweud y dylai plant mor ifanc â phump a chwech oed wneud pethau fel helpu i baratoi bocs bwyd i fynd i'r ysgol, plicio moron a thatws, plygu eu dillad yn daclus a dewis dillad ar gyfer trannoeth, cau criau esgidiau, ac ateb y ffôn yn gwrtais. Oeddech chi'n gwneud hynny yr oed yna? Neu a gawsoch chi eich difetha? Yn yr un llyfr roedd yn dweud y dylai plant naw oed ofalu am frodyr a chwiorydd iau, paratoi pryd syml o fwyd ac ennill arian am dasgau arbennig.

Ac erbyn cyrraedd yr ysgol uwchradd fel chi yma, roedd disgwyl iddyn nhw ennill arian am bethau fel gwarchod plant neu arddio i gymdogion, helpu gyda'r gofal a thrwsio yn y cartref,

torri'r glaswellt a threfnu eu cyllideb personol trwy brynu anrhegion a chynilo. Roedd hyn oll, meddai'r arbenigwyr, yn cryfhau'r berthynas deuluol.

Felly, ai rhannu cyfrifoldebau yw'r ateb i'r gwrthdaro sy'n gallu digwydd rhwng rhieni a phlant? Ai cyd-drafod cyfrifoldebau cyn penderfynu arnyn nhw ydy'r ffordd at fywyd esmwyth a heddychlon yn y cartref? Fel mae'r plentyn yn gweld manteision cydweithio gyda'i rieni fydd e'n gweld bod ar bobl ei angen? Pan fo hyn yn digwydd pan mae'n ifanc iawn fydd e'n dod yn fwyfwy hunan ddibynnol ac annibynnol?

Rhowch gynnig arni i gael gweld!

Diolch am wrando.